

Archeoleg

1 CYFLWYNIAD

- 1.1 Mae'r Nodyn hwn yn un o gyfres o Nodiadau Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA), sy'n ymhelaethu ar bolisiau'r cynllun datblygu a materion eraill mewn diwyg clir a chryno gyda'r nod o wella dyluniad ac ansawdd datblygiadau newydd. Bwriad y Nodiadau yw cynnig canllawiau bras a fydd o gymorth i aelodau'r cyhoedd a swyddogion mewn trafodaethau cyn cyflwyno ceisiadau cynllunio ac o gymorth i swyddogion wrth drin ac aelodau wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio.

2 STATWS A CHAMAU PARATOI

- 2.1 Nid yw Nodiadau CCA y Cyngor yn rhan o'r cynllun mabwysiedig. Serch hynny, maent wedi bod yn destun penderfyniad ffurfiol gan y Cyngor ac ymgynghoriad â'r cyhoedd. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru (Y Cynulliad) wedi cadarnhau, yn dilyn ymgynghoriad â'r cyhoedd a chymeradwyaeth ddilynol gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol (ACLI), y gall CCA gael ei drin fel ystyriaeth gynllunio berthnasol pan fydd Awdurdodau Cynllunio Lleol, Arolygwyr Cynllunio a'r Cynulliad yn penderfynu ceisiadau ac apeliadau cynllunio. Cymeradwywyd y Nodyn hwn gan y Cyngor ar Mehefin 3ydd 2003 i'w ddefnyddio wrth reoli datblygiadau. Mae datganiad yn nodi'r ymgynghori a gyflawnwyd, y sylwadau a dderbyniwyd ac ymateb y Cyngor i'r sylwadau hyn ar gael fel dogfen ar wahân.
- 2.2 Paratowyd y Nodiadau hyn yn unol â'r canllawiau a gynhwysir yn Polisi Cynllunio Cymru; Cynlluniau Datblygu Unedol (Cymru); Nodiadau Cyngor Technegol.

3 CEFNDIR

- 3.1 Mae Sir Ddinbych yn cynnwys adnodd eithriadol gyfoethog o nodweddion archeolegol a hanesyddol. Mewn ardal fel hon, nid oes unrhyw le heb ei effeithio gan ddylanwad dŷn ar ryw adeg. Ar y cyd ag Ymddiriedolaeth Archeolegol Clwyd-Powys, mae'r Sir yn meddu ar gronfa ddata, y Cofnod o Safleoedd a Chofadeiladau, am yr holl safleoedd archeolegol y gwyddir amdanynt yn y Sir. Gellir gweld y cofnod hwn. Mae llawer o wybodaeth am archeoleg y Sir yn anhysbys, yn parhau i gael ei warchod dan ein cefn gwlad, ein trefi a'n pentrefi. Mae'r adnodd archeolegol hwn yn gyfyngedig ac mewn perygl o gael ei ddifrodi neu ei newid. Mae gwaith diweddar wedi nodi cyfres o Barciau a Gerddi Hanesyddol pwysig yn Sir Ddinbych ac mae ardal Dyffryn Clwyd a llethrau gorllewinol Bryniau Cwyd wedi'u dynodi fel Tirlun Hanesyddol.

4 POLISI CYNLLUNIO

- 4.1 Yn 1991, cyflwynwyd Canllaw Cynllunio (CCA16) yng Nghymru yn ymwneud yn arbennig ag Archeoleg. Roedd y Canllaw hwn yn cydnabod pwysigrwydd a natur gyfyngedig archaeoleg ac yn derbyn bod ystyriaethau archeolegol yn chwarae rôl hanfodol yn y broses gynllunio. Daeth Polisi Cynllunio Cymru a chylchlythyr 60/96 cysylltiedig y Swyddfa Gymreig i gymryd lle'r ddeddfwriaeth hon yn 2002. Mae'r nodyn canllaw hwn yn gweithredu fel atodiad i Bolisiau'r Cynllun Datblygu Unedol mabwysiedig mewn perthynas ag archeoleg.

5 HENEBION COFRESTRDIG

- 5.1 Ymhlith y safleoedd hynny sydd wedi'u rhestru ar y Cofnod o Safleoedd a Henebion mae rhai cofrestredig. Gellir cofrestru safle dan amodau Deddf Henebion ac Ardaloedd Archeolegol 1979 fel safle o bwysigrwydd cenedlaethol. Mae cofrestru'n rhoi gradd o warchodaeth. Mae unrhyw waith sy'n effeithio ar y safle cofrestredig neu ei amgylchedd angen caniatâd gan CADW sy'n gofalu am y gofrestr. Mae Caniatâd Heneb Cofrestredig ar wahân i ganiatâd cynllunio. Nid yw dyfarnu caniatâd cynllunio yn golygu rhoi caniatâd heneb cofrestredig nac i'r gwrthwyneb. Ar gyfer safle sydd wedi'i gofrestru a'i restru, y ddeddfwriaeth parthed henebion cofrestredig sy'n derbyn blaenoriaeth. Yn y rhan fwyaf o achosion, byddai'r awdurdod lleol yn disgwyl i gais cynllunio sy'n effeithio ar heneb cofrestredig fod â chytundeb yn dynodi caniatâd heneb cofrestredig gan CADW i gyd-fynd ag ef. Dan rai amgylchiadau, bydd CADW yn llunio Cytundebau Rheoli â pherchnogion henebion cofrestredig er mwyn diogelu eu dyfodol yn well.

6 CEISIADAU CYNLLUNIO

- 6.1 Mae'r dymuniad i warchod heneb neu gofodail hanesyddol a'i amgylchedd yn ystyriaeth sylfaenol wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio, pa un ai yw'r heneb yn gofrestredig neu heb ei gofrestru (Cylchlythyr 60/96 y Swyddfa Gymreig). Dylai ymgeiswyr roi ystyriaeth i ystyriaethau archeolegol a thrafod cynlluniau dechreuol â'r awdurdod cynllunio yn gynnar. Y cam cyntaf yw ymgynghori â'r Cofnod o Safleoedd a Chofadeiladau Lleol. Bydd hwn yn darparu gwybodaeth am weddillion archeolegol y gwyddir am eu lleoliad a'r manau lle maent yn debygol o fodoli a bydd yn darparu rhybudd cynnar o sensitifrwydd archeolegol safle. O ganlyniad i hyn, efallai y bydd ymgeiswyr yn dymuno comisiynu eu hasesiad archeolegol eu hunain. Mae hyn fel rheol yn ymwneud â gwerthusiad wrth ddesg o'r wybodaeth bresennol. Mewn rhai achosion, bydd angen Asesiad Amgylcheddol ffurfiol, sy'n cynnwys asesiad archeolegol.
- 6.2 Lle bo trafodaethau a gwaith ymchwil cynnar o'r fath mewn perthynas â'r cais yn dynodi y gall gweddillion archeolegol pwysig fodoli yno, bydd Awdurdod Cynllunio Sir Ddinbych yn gofyn i'r datblygwr drefnu gwerthusiad maes ar ei gost ei hun cyn y gwneir unrhyw benderfyniad ynghylch y cais cynllunio. Mae gwerthusiad o'r fath, yn seiliedig ar friff a lunnir gan Archeolegydd y Sir, yn broses gyflym iawn fel rheol yn ymwneud ag arolwg tir a/neu dyllu arbrofol ar raddfa fechan, a wneir gan sefydliad archeolegol neu archeolegydd proffesiynol cymwysedig. Mae gwaith o'r math yma o gymorth i ddiffinio cymeriad a maint unrhyw weddillion archeolegol sy'n bodoli yn ardal y cais, y pwysigrwydd ddylid ei roi ar eu gwarchod a'r opsiynau posibl ar gyfer osgoi neu leihau difrod.
- 6.3 Bydd awdurdodau cynllunio lleol yn disgwyl i ganlyniadau gwerthusiadau ac asesiadau archeolegol o'r fath gael eu cyflwyno fel rhan o'r cais cynllunio.
- 6.4 Os cyflwynir ceisiadau cynllunio heb drafod ymlaen llaw gyda'r Awdurdod ac os gwelir y bydd gan y cais oblygiadau archeolegol, neu fod hynny'n debygol, bydd yr Awdurdod yn gofyn i'r ymgeisydd ddarparu mwy o fanylion mewn perthynas â'r cynllun - er enghraifft, ynghylch y sylfeini - neu efallai y gofynnir iddynt gynnal gwerthusiad yn seiliedig ar friff a lunnir gan Archeolegydd Sir Ddinbych, cyn y gellir ystyried y cais. Unwaith eto, fel hyn, gellir gwneud penderfyniad yn seiliedig ar wybodaeth mewn perthynas â'r cais cynllunio.
- 6.5 Unwaith y mae gwybodaeth ddigonol wedi'i chasglu drwy amrywiaeth o ddulliau yn amrywio o astudiaethau wrth ddesg i arolwg maes a thyllu, bydd yr Awdurdod yn gallu gwneud penderfyniad ynghylch y cais.
- 6.6 Lle effeithir ar weddillion archeolegol o bwysigrwydd cenedlaethol, boed yn gofrestredig neu beidio, gan y datblygiad, ceir rhagdybiaeth o blaid gwarchod y gweddillion yn eu lle. Mewn rhai amgylchiadau, efallai bod modd gwarchod y gweddillion drwy ddefnyddio dyluniadau cydnaws.
- 6.7 Fe geir achlysuron pryd bydd yr Awdurdod Cynllunio yn penderfynu efallai nad yw arwyddocâd y gweddillion archeolegol yn ddigonol i gyfiawnhau eu gwarchod yn eu lle. Mewn achosion o'r fath, bydd Cyngor Sir Ddinbych yn dymuno ei fodloni ei hun bod yr ymgeisydd wedi gwneud trefniadau priodol ar gyfer cloddio a chofnodi'r gweddillion archeolegol, neu unrhyw ymchwiliad arall, a bod y canlyniadau'n cael eu cyhoeddi. Mewn sawl achos, dyfernir caniatâd cynllunio ag amodau cysylltiedig sy'n darparu ar gyfer sawl sefyllfa, o gofnodi drwy gloddio'n llwyr i friff gwyllo a gyflawnir wrth darfu ar y tir. Gwneir yr holl waith hwn ar gost y datblygwr.
- 6.8 Gobeithir y bydd y broses a'r cyngor uchod yn cyfyngu ar yr achlysuron pryd bydd problemau archeolegol cwbl annisgwyl yn codi yn ystod gwaith datblygu. Fodd bynnag, fe geir adegau pryd bydd gweddillion ond yn cael eu canfod wedi i'r gwaith datblygu ddechrau. Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd modd datrys problemau drwy gyfrwng trafodaeth wirfoddol, fodd bynnag efallai y bydd y datblygwyr yn dymuno eu hyswirio eu hunain yn erbyn y risg o golled tra'n diogelu buddiannau unrhyw weddillion hanesyddol neu archeolegol a ganfyddir yn annisgwyl.

7 RHAGOR O WYBODAETH

- 7.1 Cylchlythyr 60/96 y Swyddfa Gymreig a Deddf Henebion ac Ardaloedd Archeolegol 1979.
- 7.2 Am gyngor ac arweiniad ynghylch archeoleg, cynghorir ymgeiswyr i gysylltu ag Archeolegydd y Sir neu fel dewis arall, ag Ymddiriedolaeth Archeolegol Clwyd-Powys, cyn cyflwyno cais. Hefyd, gellir cael gwybodaeth am safleoedd cofrestredig gan Cadw, Adeilad y Goron, Parc Cathays, Caerdydd, CFI 3NQ.

.....
Rhagor o gysylltiadau

Archeolegydd y Sir
Yr Hen Garchar
46 Stryd Clwyd
Cyfarwyddiaeth Dysgu Gydol Oes
Cyngor Sir Ddinbych
Ffon: 01824 708262

Ymddiriedolaeth Archeolegol Clwyd-Powys
7a Stryd yr Eglwys
Y Trallwng
Powys
SY21 7DL
Ffon: 01938 553670

Cyfarwyddiaeth Amgylchedd • Gwasanaethau Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd

Cysylltiadau:

Tîm Rheoli Datblygu y Gogledd
Ty Nant, Ffordd Llys Nant, Prestatyn, Sir Ddinbych LL19 9LL
Ffôn: 01824 708111 • Ffacs: 01824 706533
safle gwe: www.sirddinbych.gov.uk

Tîm Rheoli Datblygu y De
Trem Clwyd, Canol y Dre, Rhuthun, Sir Ddinbych LL15 1QA
Ffôn: 01824 708111 • Ffacs: 01824 708039
safle gwe: www.sirddinbych.gov.uk

Gellir cysylltu â'r Gwasanaethau Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd hefyd drwy e-bost dcc_planning@denbighshire.gov.uk
Gellir cysylltu â Thimau Rheoli Adeiladu Ardaloedd y Gogledd a'r De yn yr uchod hefyd.